



IGDC • DHCW



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Hysbysiad Preifatrwydd



SUT MAE IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU YN TRIN DATA AMDANOCH CHI

PAM RYDYM YN DEFNYDDIO DATA PERSONOL

Mae'r data personol sydd gennym yn adlewyrchu natur amrywiol ein rôl.

Isod mae rhai enghreifftiau o weithgareddau IGDC:

- Rydym yn cynnal ac yn cadw systemau TG cenedlaethol a ddefnyddir i ddarparu gofal i bobl Cymru;
- Rydym yn datblygu ac yn profi systemau newydd;
- Rydym yn gweithio ar ran Byrddau Iechyd a sefydliadau eraill yng Nghymru i gysylltu systemau TG i sicrhau bod gan feddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddarparu gofal i bobl Cymru;
- Rydym yn darparu gwasanaethau sy'n gosod safonau gwybodaeth, gan sicrhau bod systemau TG yn defnyddio iaith gyffredin; ac
- Rydym yn dadansoddi gwybodaeth i ddarparu adroddiadau ac i lywio blaenoriaethau ar gyfer y GIG yng Nghymru.
- Rydym yn darparu adroddiadau i sefydliadau GIG Cymru i gynorthwyo gydag amrywiol weithgareddau

megis rheoli adnoddau, archwiliadau clinigol, cynllunio gwelliannau. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan [IGDC ar https://igdc.gig.cymru/](https://igdc.gig.cymru/)

Mae'r holl weithgareddau uchod yn gofyn am fynediad at ddata personol. Rheolir y mynediad hwn – nid yw pob un o'r bobl sy'n gweithio i ni angen mynediad at yr holl ddata personol sydd gennym, a dim ond pan fo'n ofynnol i unigolyn wneud ei waith y byddwn yn caniatáu mynediad at ddata personol.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn cymryd hyn o ddifrif ac mae'n ofynnol i bob un o'n gweithwyr gael eu hyfforddi ar y defnydd priodol o ddata personol. Gall mynediad amhriodol at ddata personol arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys diswyddo.



I gael rhagor o wybodaeth am sefydlu a swyddogaethau IGDC, gweler: Iechyd a Gofal Digidol Cymru: sefydlu a swyddogaethau | <https://www.llyw.cymru/iechyd-gofal-digidol-cymru-sefydlu-swyddogaethau>

MATHAU O DDATA PERSONOL

Er mwyn cyflawni ein swyddogaethau a darparu gwasanaethau, rydym yn casglu, storio a defnyddio ystod o ddata personol ('prosesu').

Nid ydym yn casglu nac yn prosesu'r holl ddata personol hwn am bawb drwy'r amser. Rydym ond yn casglu ac yn prosesu'r data personol sy'n angenrheidiol ar gyfer y dasg benodol yr ydym yn ei chyflawni. Lle bo'n bosibl, bydd gwybodaeth amdanoch yn cael ei rhoi dan ffugenw (gan ddisodli dynodwyr â chodau neu 'allweddi') neu ei gwneud yn anhysbys (sy'n golygu na ellir adnabod unigolion); er enghraifft, pan fydd adroddiadau'n cael eu cynhyrchu.

Mae categorïau arbennig o ddata personol y byddwn o bosibl yn eu prosesu yn cynnwys y canlynol:

- Manylion cyswllt, gan gynnwys enwau, enwau eraill, cyfeiriadau, codau post, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost;
- Nodi manylion, gan gynnwys dyddiad geni a rhifau cyfeirnod megis rhifau'r GIG;
- Gwybodaeth am iechyd a lles pobl gan gynnwys hanes meddygol, a chan

- gynnwys data genetig o bosib;
- Gweithle, addysg neu wybodaeth ariannol;
- Gwybodaeth am deulu, dibynyddion neu amgylchiadau personol cleifion (i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw am eu gofal);
- Gwybodaeth arall a allai effeithio ar y ffordd y mae pobl yn cael eu trin neu'n derbyn gofal, neu y mae'n ofynnol i ni eu casglu i ddeall pwy sy'n defnyddio systemau iechyd a gofal. Mae hyn yn cynnwys data am grefydd, hil, ethnigrwydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol pobl;
- Dynodwyr ar-lein, gan gynnwys cyfeiriadau IP a dynodwyr cwcis (a gasglwyd pan fyddwch yn ymweld â gwefannau y mae IGDC yn gyfrifol amdanynt).
- Gwybodaeth ynghylch gweithlu GIG Cymru at ddibenion megis cynnal a chadw cyfrifon, hyfforddiant ac ati.

SUT RYDYM YN DEFNYDDIO DATA PERSONOL

Ar y cyfan, rydym yn prosesu data personol at ddibenion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â sicrhau ein bod yn cefnogi gweithwyr clinigol proffesiynol eraill, gan eu helpu i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel i gleifion mewn ysbytai, meddygfeydd ac ar draws y gymuned.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn ei brosesu am resymau cyffredinol eraill, megis:



- Rhoi gwybodaeth i chi yr ydych wedi gofyn amdani;
- Ymdrin â'ch ymholiadau, cwynion neu bryderon;
- Darparu mynediad i rai rhannau o'n gwefannau;
- Rhoi gwybod i chi am wasanaethau a allai fod yn berthnasol i chi;
- Cymryd rhan mewn prosesu data ar gyfer archwilio clinigol i sicrhau diogelwch y claf;
- Defnyddio gwybodaeth yng nghyd-destun eich oedran, rhyw a ffactorau eraill i gynnig, er enghraifft, gwasanaethau sgrinio neu frechiadau. Fel arfer, caiff gwasanaethau o'r fath eu cynnig gan sefydliadau eraill ond rydym yn aml yn cadw'r wybodaeth ac yn hwyluso'r dadansoddiad;
- Cymryd rhan mewn ymchwil i helpu i asesu triniaethau, technolegau neu ddulliau newydd a helpu i ddeall iechyd a chyflyrau penodol yn well;
- Archwilio a gwella ein systemau a'n gwefannau TG;
- Hwyluso ymgysylltu â rhanddeiliaid megis grwpiau ffocws neu arolygon;
- Darparu gwybodaeth i gyrff rheoleiddio; a
- Rhannu data personol i ddatrys cwyn neu i gael cyngor cyfreithiol neu mewn perthynas â hawliad.

Gall IGDC ddefnyddio deallusrwydd artifisial i gyflawni ein swyddogaethau. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynhyrchu deunydd a ddarllenwyd o flaen llaw i baratoi ar gyfer cyfarfodydd.
- Crynhoi dogfennau hir, negeseuon e-bost neu pan gaiff ei ddefnyddio yn ystod cyfarfodydd i grynhoi'r cyfarfod hyd yn hyn.
- Ar ôl y cyfarfod i gynhyrchu nodiadau neu gofnodion cyfarfod, a darparu crynodeb o'r cyfarfod i staff nad oeddent yn gallu mynychu.
- Cynhyrchu testun a chynnwys arall. Er enghraifft, i gynhyrchu drafft cyntaf e-bost, papur briffio neu gyflwyniad.
- Awgrymiadau ynghylch datrys problemau, codio neu ddefnyddio cynnyrch allanol

Mae angen goruchwyliaeth ddynol bob amser i wirio allbynnau.

SUT RYDYM YN CAEL GAFAEL AR EICH DATA PERSONOL

Rydym yn casglu data personol o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Gwybodaeth a ddarperir gan sefydliadau eraill y GIG (e.e. Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau a Meddygon Teulu);
- Gwybodaeth a ddarperir gan sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r GIG (e.e. Awdurdodau Lleol);
- Ffynonellau eraill o wybodaeth ledled y DU (e.e. Digidol y GIG a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol);

- Arolygon ac ymchwil a gomisiynwyd gennym ni neu sefydliadau eraill; a
- Gwybodaeth rydych chi'n ei darparu'n uniongyrchol i ni.

Y SAIL GYFREITHLON DROS YR HYN A WNAWN

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddweud wrthyh y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol yn y ffordd yr ydym yn gwneud. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

[Cliciwch yma am ragor o wybodaeth](#)

Yn gyffredinol, rydym yn dibynnu ar y darpariaethau cyfreithiol canlynol:

- Tasg gyhoeddus: mae angen prosesu er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd.
- Darparu gofal: mae angen prosesu at ddibenion iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Lle rydym yn credu ei bod yn briodol, efallai y byddwn yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio data personol amdanoch.

GYDA PHWY Y RHENNIR DATA PERSONOL

Dim ond gyda sefydliadau eraill lle mae'n angenrheidiol ac yn gyfreithlon i wneud hynny y rhennir data personol. Mae'r ystod o bartneriaid rhannu gwybodaeth yn adlewyrchu cwmbras eang y gwasanaethau a'r systemau yr ydym yn ymwneud â hwy. Mae ein partneriaid rhannu gwybodaeth yn cynnwys:

- Sefydliadau'r GIG yng Nghymru fel Byrddau Iechyd, Meddygfeydd Cyffredinol a Fferyllfeydd;
- Sefydliadau eraill sy'n darparu gofal, megis Awdurdodau Lleol; a
- Chyflenwyr systemau TG, y mae rhai ohonynt yn gwmnïau preifat sy'n darparu gwasanaethau o dan gontract.

Byddwn yn rhannu data personol os yw'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith – er enghraifft, drwy orchymyn llys neu i atal twyll neu droseddau eraill.

Mae unrhyw un sy'n derbyn data personol amdanoch o dan ddyletswydd gyfreithiol i'w gadw'n gyfrinachol.

Dim ond yr wybodaeth angenrheidiol y byddwn yn gofyn amdani, yn ei defnyddio ac yn ei rhannu. Ni fyddwn byth yn gwerthu data personol amdanoch ac ni fyddwn yn ei rhannu heb yr awdurdod cyfreithiol priodol, nac os yw'n briodol i'r amgylchiadau, eich caniatâd gwybodus.

Efallai y byddwn yn rhannu data personol at ddibenion eraill; er enghraifft, i ganiatáu i ymchwil ddigwydd lle mae er budd y cyhoedd. Mae hyn yn amodol ar broses gymeradwyo. Mae cynllunio neu gomisiynu gwasanaethau, ac archwilio yn rhai dibenion eraill a allai olygu bod angen rhannu data personol. Bydd data dienw neu dan ffugenw yn cael ei ddefnyddio lle bo'n bosibl ac mae'r defnydd o ddata personol yn destun prosesau cymeradwyo a gweithredu'r rheolaethau perthnasol.



AM BA MOR HIR Y BYDDWN YN CADW'CH DATA PERSONOL?

Rydym yn cadw data personol cyhyd ag y bydd angen i ni er mwyn cyflawni'r diben(ion) y cafodd ei gasglu ar ei gyfer a chydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol. Mae gan GIG Cymru amserlenni cadw cofnodion sy'n nodi'r cyfnod gofynnol y dylid cadw data. Mae hwn ar gael drwy wefan Llywodraeth Cymru sydd ar gael [yma](#).

DIOGELWCH A STORIO DATA

Mae IGDC yn cydnabod bod eich data personol yn werthfawr iawn, ac rydym yn cymryd diogelwch data o ddifrif. Rydym wedi sefydlu systemau a phrosesau i atal mynediad heb awdurdod neu ddatgelu data drwy ddefnyddio:

- Archwilio - rydym yn cadw cofnodion o'r rhai sy'n cyrchu data personol;
- Rheolaethau cyfrineiriau - rhoddir enw defnyddiwr a chyfrinair i aelodau staff i gael mynediad at ddata personol;

- Rheolaethau mynediad – dim ond y staff hynny y mae'n ofynnol iddynt gael mynediad at y data sydd â mynediad at y data;
- Rheoli cofnodion electronig - cedwir yr holl gofnodion gofal iechyd yn gyfrinachol ac mewn lleoliadau diogel;
- Rheolaethau cyfrifiadurol - mae gennym reolaethau diogelwch cymhleth i sicrhau na all ein cyfrifiaduron gael eu defnyddio gan y rhai nad ydynt wedi'u hawdurdodi i wneud hynny – fel hacwyr;
- Storio – Mae gennym ddatrysiadau storio soffistigedig gyda chefnogaeth ar gyfer gwydnwch; ac
- Amgryptio - mae dyfeisiau cyfrifiadurol sy'n dal data personol fel gliniaduron yn cael eu hamgryptio rhag ofn i'r ddyfais sy'n storio'r data gael ei cholli neu ei dwyn



Rhaid i holl staff IGDC gwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn gwneud staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfrinachedd a diogelwch data personol ac yn ei gwneud yn glir eu bod yn bersonol gyfrifol am ddiogelwch data o'r fath. Rhaid cwblhau'r hyfforddiant hwn bob dwy flynedd.

Rydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw drydydd parti yr ydym yn delio ag ef yn cadw'r holl ddata personol y maent yn ei brosesu ar ein rhan yn ddiogel.

Defnyddiodd IGDC amrywiol ddulliau storio ar gyfer data personol gan gynnwys:

- Data a reolir a'i storio gan IGDC gan ddefnyddio gwasanaethau cwmwl
- Data a reolir a'i storio gan IGDC yng Nghymru
- Data a reolir a'i storio gan drydydd partïon dan gontract

Gellir storio data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n ofynnol i ni gael mesurau diogelu priodol ar waith gyda'r nod o ddiogelu data yn unol â chyfreithiau perthnasol. Defnyddiwyd y manylion cyswllt isod os ydych am gael rhagor o wybodaeth am y mesurau diogelu sydd ar waith ar hyn o bryd.

EICH HAWLIAU

Mae deddfwriaeth diogelu data yn darparu hawliau unigol amrywiol ar gyfer pynciau data gan gynnwys:

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gael mynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Yr hawl i wrthwynebu
- Hawliau yn ymwneud â phroffilio a phenderfyniadau a wneir yn awtomatig

Nid yw'r holl hawliau hyn yn absoliwt, sy'n golygu bod yn rhaid i ni gydbwysu eich dymuniadau yn aml yn erbyn gofynion eraill. Er enghraifft, mae'n annhebygol y cytunir ar gais gan ddata sy'n destun dileu eu cofnod iechyd cyfan. Y rheswm am hyn yw bod rhesymau cyfreithiol eraill bod angen cadw cofnodion o'r fath. Os oes angen triniaeth yn y dyfodol, gallai'r unigolyn fod mewn perygl o niwed os nad oes gwybodaeth am ei hanes meddygol ar gael. Bydd pob cais i arfer un o'r hawliau uchod yn cael ei asesu yn ôl ei deilyngdod. Mae rhai hawliau'n annhebygol o fod yn gymwys yng nghyd-destun y gwaith a wnawn; er enghraifft, yr hawl i ddileu a'r hawl i gludadwyedd data.



I gael esboniad o'ch holl hawliau, gweler canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y gallwch eu gweld [yma](#). Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynglŷn â phrosesu data personol amdanoch, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

EIN GWEFANNAU

GOOGLE ANALYTICS

Gall y wefan hon ddefnyddio Google Analytics (gwefan allanol), sef gwasanaeth dadansoddeg gwe a ddarperir gan Google Inc. ('Google'). Mae Google Analytics yn defnyddio 'cwcis' a chod JavaScript i helpu i ddadansoddi gweithgarwch defnyddwyr ar wefannau. Caiff yr wybodaeth a gynhyrchir am eich defnydd o'r wefan (gan gynnwys eich cyfeiriad IP) ei throsglwyddo a'i storio ar weinyddwyr Google yn yr Unol Daleithiau.

Bydd Google yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynhyrchu adroddiadau am weithgarwch defnyddwyr ar gyfer y wefan hon. Mae'n bosibl y bydd Google hefyd yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i drydydd partïon lle y bo'n rhaid gwneud hynny yn unol â'r gyfraith, neu lle y bydd trydydd partïon o'r fath yn prosesu'r wybodaeth ar ran Google.

Ni fydd Google yn cysylltu eich cyfeiriad IP ag unrhyw ddata eraill a gadwyd amdanoch ynghynt. Gallech

wrthod defnyddio cwcis trwy ddewis y gosodiadau priodol ar eich porwr. Noder os bydd cwcis wedi'u diffodd, efallai na fyddwch yn gallu defnyddio swyddogaeth lawn y wefan hon. Trwy ddefnyddio'r wefan hon, rydych yn cydsynio i Google brosesu data amdanoch yn y modd ac at y dibenion a amlinellir uchod.

Darllenwch [Bolisi Preifatrwydd Llawn Google](#) (gwefan allanol) a [Thelerau Gwasanaeth](#) (gwefan allanol) i gael gwybodaeth fanwl.

BETH YW CWCIS?

Mae cwcis yn ffeiliau bach y mae gwefannau yn eu rhoi ar yriant disg caled eich cyfrifiadur pan fyddwch yn ymweld â nhw. Mae cwcis yn trosglwyddo gwybodaeth yn ôl i wefannau bob tro y byddwch chi'n ymweld â nhw.

Fe'u defnyddir i adnabod porwyr gwe, olrhain tueddiadau defnyddwyr a storio gwybodaeth am ddewisiadau defnyddwyr. Gallwch gyfyngu/analluogi cwcis ar eich porwr. Fodd bynnag, efallai na fyddwch yn gallu manteisio'n llawn ar holl nodweddion ein gwefan heb gwcis.

PEIRIANT CHWILIO

Gall ein gwefan gynnwys cyfleusterau chwilio. Gellir cofnodi ymholiadau a chanlyniadau chwilio yn ddiennw i'n helpu i wella ein gwefan a'n swyddogaethau chwilio. Ni fydd unrhyw ddata personol adnabyddadwy yn cael ei gasglu gennym ni.

Y DIBEN A'R SAIL GYFREITHIOL DROS BROSESU

Diben gweithredu'r uchod i gyd yw cynnal a monitro perfformiad ein gwefannau a cheisio gwella'r safleoedd a'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i'n defnyddwyr yn gyson.

DOLENNI I WEFANNAU ERAILL

Gall ein gwefannau a'n gwefannau a gynhelir gennym gynnwys dolenni i wefannau eraill. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i IGDC yn unig ac nid yw'n cynnwys gwefannau sefydliadau eraill. Dylai fod gan y sefydliadau hyn eu telerau ac amodau eu hunain.

CAMERÂU TELEDU CYLCH CYFYNG

Efallai y bydd gan ein swyddfeydd gamerâu teledu cylch cyfyng ac os byddwch yn ymweld â ni'n bersonol efallai y cewch eich recordio. Bydd gan unrhyw swyddfa sydd â chamerâu teledu cylch cyfyng arwyddion clir i ddangos presenoldeb y camerâu. Mae'r camerâu hyn at ddibenion diogelwch ac ni fydd y fideo'n cael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

NEWIDIADAU I'R POLISI HWN

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol, yn gywir ac yn gyfredol. Bydd unrhyw newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn yn berthnasol i chi a'r wybodaeth a gedwir amdanoch ar unwaith.





CYSYLLTWCH Â NI

Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data i gael rhagor o wybodaeth ynghylch yr hysbysiad hwn, gan gynnwys sut i arfer eich hawliau neu os ydych am wneud cwyn diogelu data:

Swyddog Diogelu Data

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Tŷ Glan-yr-Afon

21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen

Caerdydd

CF11 9AD

[DHCW.InformationGovernance@wales.](mailto:DHCW.InformationGovernance@wales.nhs.uk)

[nhs.uk](https://www.nhs.uk)

HAWL I GWYNO

Os ydych chi'n dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, mae gennych chi'r hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), a gallwch chi wneud hynny drwy'r wefan neu eu llinell gymorth dros y ffôn.

DIFFINIADAU

Term	Diffiniad
Swyddog Diogelu Data	Mae'n ofynnol i rai categorïau o sefydliadau, gan gynnwys unrhyw gorff neu awdurdod cyhoeddus (ac eithrio llysoedd yn eu swyddogaeth farnwrol) benodi Swyddog Diogelu Data â chymwysterau addas. Mae tasgau'r Swyddog Diogelu Data wedi'u nodi yn Erthygl 39 o GDPR y DU.
Testun data	Unigolyn adnabyddedig neu adnabyddadwy yw 'testun data'.
Data genetig	Data personol sy'n ymwneud â nodweddion genetig a etifeddwyd neu a gaffaelwyd gan berson naturiol sy'n rhoi gwybodaeth unigryw am ffisioleg neu iechyd y person naturiol hwnnw ac sy'n deillio, yn benodol, o ddadansoddiad o sampl biolegol gan y person naturiol dan sylw
Deallusrwydd Artiffisial	Term cyffredinol ar gyfer ystod o dechnolegau sy'n seiliedig ar algorithmau sy'n datrys tasgau cymhleth trwy gyflawni swyddogaethau a oedd gynt yn gofyn am feddwl dynol
Diogelu Data	GDPR y DU yw fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr UE. Mae'n cynnwys y diffiniadau, yr amodau, yr egwyddorion a'r hawliau sy'n berthnasol i brosesu data personol yn y DU.
Data personol	Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol ('testun data') adnabyddedig neu adnabyddadwy; person naturiol adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig drwy gyfeirio at adnabyddwyr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, adnabyddwr ar-lein neu un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth ffisegol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw;
Prosesu	Unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau a wneir i ddata personol neu i setiau o ddata personol, p'un ai trwy ddulliau awtomataidd ai peidio, megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu trwy drosglwyddo, lledaenu neu fel arall sicrhau eu bod ar gael, alinio neu gyfuno, cyfyngu, dileu neu ddinistrio
Proffilio	Unrhyw fath o brosesu data personol yn awtomataidd sy'n cynnwys defnyddio data personol i werthuso rhai agweddau personol sy'n ymwneud â pherson naturiol, yn enwedig i ddadansoddi neu ragweld agweddau sy'n ymwneud â pherfformiad y person naturiol hwnnw yn y gwaith, sefyllfa economaidd, iechyd, dewisiadau personol, buddiannau, dibynadwyedd, ymddygiad, lleoliad neu symudiadau
Data dan ffugenw / Rhoi dan ffugenw	Prosesu data personol yn y fath fodd fel na ellir priodoli'r data personol mwyach i destun data penodol heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, ar yr amod bod gwybodaeth ychwanegol o'r fath yn cael ei chadw ar wahân ac yn destun mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau nad yw'r data personol yn cael ei briodoli i berson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy